

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

<http://senedd.tv/cy/4615>

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2018

Amser: 09.46 – 12.42

## Preifat

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Catherine Hunt (Ail Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Clerc) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Gareth David Thomas (Ymchwilydd) Gareth Pembridge (Cyngorydd Cyfreithiol)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

**Penderfynodd y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.**

## **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## **2 Trafod enwebiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

2.1 Trafododd y Pwyllgor ymhellach yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer yr enwebiad i fod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd i ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru, yn unol ag adran 2(3) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## **3 Paratodau ariannol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd: papur cwmpasu**

3.1 Trafododd y Pwyllgor sut y bydd yn cynnal ei ymchwiliad ynghylch paratodau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd a chytunodd i ystyried y cylch gorchwyl mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## **4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): sesiwn wybodaeth ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gasgliadau modelu diwygiedig y Sheffield Alcohol Research Group**

4.1 Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru sesiwn wybodaeth i'r Pwyllgor ar gasgliadau modelu diwygiedig y Sheffield Alcohol Research Group ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

## **5 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): trafod yr adroddiad drafft**

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2018.